



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Polisi Iechyd a Diogelwch

2015

Datganiad y Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rhwymedigaethau i reoli'r risgiau i iechyd ei staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn gywir. Mae rheoli arweinyddiaeth a rheolaeth strategol gref yn chwarae rhan bwysig wrth sefydlu Prifysgol ddiogel a diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.

Bwriad y ddogfen hon yw dod â pholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol i sylw ei holl weithwyr a myfyrwyr er mwyn gwneud diogelwch yn rhan annatod o'r driniaeth briodol o faterion. Cred y Brifysgol mai dyletswyddau a gofynion statudol yw'r isafswm safonau i'w bodloni a'i bod hi'n ddymunol rhagori ar y safonau hynny.

Polisi'r Brifysgol, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yw:

- sefydlu a chynnal amgylchedd ar gyfer staff, myfyrwyr ac ymwelwyr sy'n ddiogel a heb risgiau i iechyd;
- sicrhau bod iechyd a diogelwch yn fater uwch reoli cyfreithlon (a nodi'r rheiny sy'n gyffredinol gyfrifol am iechyd a diogelwch a'r rheiny sy'n gyfrifol am lunio polisïau);
- ymroi i ddarparu'r adnoddau priodol;
- darparu a chynnal peiriannau, cyfarpar a systemau gwaith sy'n ddiogel a heb risgiau i iechyd;
- darparu'r wybodaeth, y cyfarwyddyd, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth fel y bo angen i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr;
- sicrhau bod y gweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd o fewn eu hawdurdodaeth, eu bod yn gweithredu gofynion y polisi diogelwch ac yn ymwybodol o'r cyfraniad y gall gweithwyr a myfyrwyr ei wneud i weithredu'r polisi;
- monitro ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol a, lle bo'n briodol, rhoi gwelliannau ar waith;
- cynnal ymrwymiad i welliant parhaus mewn perfformiad iechyd a diogelwch.

Bydd y Brifysgol yn adolygu ei Pholisi Iechyd a Diogelwch yn flynyddol ac yn ei ddiwygio cyn amlled â bod angen.

Yr Athro Medwin Hughes

Is-ganghellor

Ebrill 2015

Ymroi i Iechyd a Diogelwch

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr gydweithredu ar bob mater iechyd, diogelwch a lles.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n cynrychioli'r Brifysgol yn gofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac am iechyd a diogelwch pobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd.

Mae'r Brifysgol yn gosod y canllawiau canlynol ar gyfer yr HOLL staff:

- Dylai'r staff ymddwyn yn gyfrifol bob amser, gan roi sylw yn benodol i beidio ag ymgymryd ag unrhyw weithredoedd sy'n cyflwyno perygl iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill.
- Cydweithredu gyda'r Brifysgol a chefnogi ei pholisïau a gweithdrefnau ar iechyd a diogelwch
- Dod ag unrhyw sefyllfa neu arfer a allai arwain at anafiadau neu afiechyd cysylltiedig â gwaith i sylw'r rheolwyr
- Cwblhau asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau a thripiâu maes lle mae risg sylweddol i iechyd a diogelwch
- Cynnal a diweddarau eu gwybodaeth gyda pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau iechyd a diogelwch.
- Rhoi gwybod am bob damwain, achosion o fod yn agos at ddamwain a digwyddiadau heb eu cynllunio i'r adran iechyd a diogelwch
- Defnyddio offer yn ddiogel, yn unol ag unrhyw hyfforddiant perthnasol
- Cynnal gwaith cadw tŷ da mewn ardaloedd gweithio
- Cael gwared ar wastraff yn briodol yn unol â'r polisïau gwastraff perthnasol
- Rhoi gwybod am bob achos agos at ddamwain, digwyddiad a damwain
- Ymgymryd â hyfforddiant iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i weithgareddau'r gwaith

Mae gan bob aelod o staff y Brifysgol gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch, sy'n ffurfio rhan o'u dyletswydd gyfreithiol graidd fel gweithiwr.

Dyletswydd pob rheolwr llinell yw dod â'r rhan hon i sylw pob aelod o'u tîm.

Mae gan weithwyr y Brifysgol sy'n gweithredu mewn rôl rheoli neu oruchwylio gyfrifoldebau rheoli ychwanegol i'r rhai a ddisgrifiwyd yn flaenorol, a ddisgrifir yn fanylach yn Atodiad A y polisi hwn.

Rolau a Chyfrifoldebau

Yr Uwch Gyfarwyddiaeth

Mae Uwch Gyfarwyddiaeth y Brifysgol mewn sefyllfa i ystyried, cefnogi a rhoi polisiau ar waith ar y lefel uchaf.

Bydd yr Uwch Gyfarwyddiaeth:

- Yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu arweinyddiaeth iechyd a diogelwch
- Yn cael ac yn ystyried adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch
- Yn ystyried goblygiadau iechyd a diogelwch ei holl benderfyniadau

Bydd y Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) trwy'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, yn sicrhau bod y wybodaeth am y canlynol yn cael ei chyflwyno i'r Is-ganghellor, yr Uwch Gyfarwyddiaeth ac/neu Gyngor y Brifysgol, fel y bo angen ac y bo'n briodol:

- Diweddariadau i'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a'i goblygiadau i'r Brifysgol
- Y strategaeth gyfathrebu ar iechyd a diogelwch yn y Brifysgol
- Unrhyw doriad i gydymffurfiaeth iechyd a diogelwch arwyddocaol a chymau gweithredu priodol
- Materion rheoli risg iechyd a diogelwch perthnasol
- Penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd, diogelwch a lles staff a myfyrwyr
- Polisiau iechyd, diogelwch a lles, a diweddariadau, ar ran y Brifysgol
- Y blaenoriaethau iechyd a diogelwch i'w cynnwys yng nghynllun gweithredu tactegol iechyd a diogelwch

Yr adran Iechyd a Diogelwch

Adran iechyd a diogelwch y Brifysgol yw'r prif adnodd cyngor a hyfforddiant iechyd a diogelwch. Nodau craidd yr adran iechyd a diogelwch yw lleihau pob risg i lefel mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ac ymroi i ddiwylliant o welliant parhaus.

Bydd yr Adran Iechyd a Diogelwch yn:

- Arwain drwy esiampl trwy weithio'n rhagweithiol i leihau'r risgiau
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr i sicrhau y glynir wrth bolisiau iechyd a diogelwch
- Creu a gweithredu'r ymrwymadau polisi iechyd a diogelwch yn y Brifysgol
- Creu cynlluniau gweithredu tactegol i wella perfformiad diogelwch y Brifysgol
- Gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i gyflwyno'r cynllun gweithredu tactegol
- Creu, a sicrhau bod adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch ar gael
- Ymchwilio i'r holl ddigwyddiadau a damweiniau iechyd a diogelwch arwyddocaol

Yn ogystal, bydd fframwaith Trefniadol y Brifysgol yn nodi'r cyfrifoldebau a'r perthnasau a fydd yn hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.

Mae'r adran hon yn nodi'r unigolion uwch sy'n gyfrifol am gyflawni ymrwymadau'r polisi.

- **Is-ganghellor** y Brifysgol sy'n atebol yn y pen draw am berfformiad lechyd a Diogelwch ar draws y portffolio.
- Amlinella **Cyngor y Brifysgol** y ffordd y caiff effeithiolrwydd rheolaeth iechyd a diogelwch ei oruchwylio;
- Pennir cyfrifoldeb i'r **Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio)** am gefnogi'r Is-ganghellor gyda'i ddyletswyddau iechyd a diogelwch, gan ledaenu diogelwch priodol i aelodau eraill yr Uwch Gyfarwyddiaeth (trwy'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch) a sicrhau y pennir yr adnoddau cywir i'r tîm iechyd a diogelwch;
- Mae'r **Uwch Dîm Rheoli'n** cymell ac yn arwain gweithrediad effeithiol y polisi fel uwch swyddogion gweithredol;
- Mae'r **Cyfarwyddwr Gweithrediadau** yn gyfrifol am sicrhau bod materion iechyd a diogelwch gweithredol ar draws y Brifysgol yn cael eu rheoli'n briodol, y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ac y cedwir diweddarau Polisi Iechyd a Diogelwch, trefniadau a chanllawiau'r Brifysgol mewn perthynas â newidiadau deddfwriaethol.
- Mae'r **Rheolwr Iechyd a Diogelwch** yn cydlynu gweithrediad iechyd a diogelwch ar draws y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am gynllunio lefel uwch, cyflawni cynlluniau'n llwyddiannus a rhoi gwybod am faterion iechyd a diogelwch i'r rheolwyr llinell ac i randdeiliaid allweddol eraill.
- Mae gan y **Penaethiaid Unedau / Ysgolion / Deoniaid Cyfadrannau** ddyletswyddau i sicrhau eu bod yn cydweithredu â pholisïau'r Brifysgol a bod y staff dan eu rheolaeth yn cydymffurfio â pholisïau'r Brifysgol yn eu maes cyfrifoldeb. Dyletswydd yr uwch reolwr yw cadw cael gwybod am y newidiadau i'r polisïau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- Mae **cynrychiolwyr diogelwch** a chynrychiolwyr diogelwch gweithwyr eraill a benodir gan Undeb Llafur hefyd yn cyfrannu at benderfyniadau diogelwch hollbwysig trwy Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ymgynghorol (a thrwy ffyrdd eraill).

Mae Atodiad A yn amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau'n fanylach.

Cyfathrebu ac ymgynghori ar faterion iechyd a diogelwch

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol er mwyn i'r Brifysgol ddiwallu ei hymrwymiad i ddiwylliant o reoli diogelwch yn rhagweithiol a gwelliant parhaus. Bydd y brifysgol yn ymgynghori ar gyflwyno a diwygio polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch trwy baneli iechyd a diogelwch lleol a Chyngor y Brifysgol.

Bydd grwpiau iechyd a diogelwch y Brifysgol yn cyfarfod yn gyson i drafod materion iechyd a diogelwch er mwyn symud ymlaen ar faterion a lledaenu a chyfnewid gwybodaeth a diweddariadau ar ddiogelwch.

Mae'r datganiadau canlynol yn adlewyrchu prif rwymedigaethau'r gweithgorau a'r grwpiau diogelwch:

- Darparu canolbwynt i ddatrys materion y safle ar iechyd, diogelwch a lles
- Ystyried materion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w safle
- Ystyried gweithrediad deddfwriaeth iechyd a diogelwch ac argymell camau priodol
- Hyrwyddo safonau hyfforddiant da mewn iechyd a diogelwch ar bob lefel yn y Brifysgol
- Penodi grwpiau gorchwyl i astudio materion iechyd a diogelwch penodol
- Lledaenu gwybodaeth lle bo angen
- Hyrwyddo arfer iechyd a diogelwch da
- Arwain drwy esiampl

Bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei chyflwyno i gyngor y Brifysgol, trwy'r pwyllgor iechyd a diogelwch a grwpiau diogelwch i'w hystyried:

- Polisiau ar iechyd, diogelwch a lles
- Adroddiadau archwilio rheolaeth iechyd a diogelwch
- Adroddiadau o achosion agos, afiechyd cysylltiedig â gwaith, digwyddiadau a damweiniau

Bydd Campysau Llundain a Chaerdydd yn cael eu cynrychioli trwy Grŵp Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Abertawe.

Cynllunio ar gyfer Iechyd a Diogelwch Effeithiol

Mae cynllunio'n hanfodol i sicrhau bod ein gweithdrefnau iechyd a diogelwch wir yn gweithio ar raddfa ymarferol. Bydd y Brifysgol yn cynllunio i nodi blaenoriaethau a helpu gosod amcanion allweddol:

Bydd y Brifysgol:

- Yn cynnwys ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ei chynllunio strategol
- Yn hwyluso'r gwaith o lunio cynllun gweithredu tactegol iechyd a diogelwch sy'n nodi amcanion sy'n realistig, yn fesuradwy ac yn bosibl eu cyflawni
- Yn defnyddio'r safonau cydymffurfiaeth briodol yn y cynllun
- Yn sicrhau bod y cynllun iechyd a diogelwch yn destun ymgynghoriad trwy Grwpiau Iechyd a Diogelwch y Brifysgol
- Yn sicrhau bod y cynllun iechyd a diogelwch yn nodi canlyniadau a sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

Mesur ein perfformiad Iechyd a Diogelwch

Mae mesur ein perfformiad iechyd a diogelwch yn hanfodol i wella perfformiad diogelwch.

Bydd y Brifysgol yn hwyluso'r gwaith o fesur ei pherfformiad diogelwch yn ymatebol (pan fydd pethau'n mynd o'i le) ac yn rhagweithiol (cyn i bethau fynd o'i le). Bydd yr adran Iechyd a Diogelwch yn symud yr ymrwymiad hwn yn ei flaen.

Bydd perfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei fesur a'i adolygu trwy:

- Gael strategaethau mesur grymus ar waith ynghyd â'r hyfforddiant i fod wrth wraidd y strategaethau hyn
- Monitro cydymffurfiaeth â deddfau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i weithgareddau'r Brifysgol
- Cynnal cofnodion cywir
- Ymchwilio i'r HOLL achosion agos at ddamwain, damweiniau a digwyddiadau.
- Cymharu a meincnodi perfformiad yn erbyn sefydliadau tebyg eraill
- Archwilio lefelau cydymffurfiaeth gyda'n dangosyddion perfformiad iechyd a diogelwch yn erbyn deddfwriaeth ac arfer da.
- Ymgymryd ag archwiliadau iechyd a diogelwch blynyddol o bob safle
- Ymgymryd ag archwiliadau cydymffurfiaeth un mater
- Nodi meysydd lle gall perfformiad gael ei wella
- Bwydo canfyddiadau'r archwiliad i gynlluniau gweithredu perthnasol
- Gwneud yn siŵr y caiff amcanion cytûn eu cyflawni o fewn amserlen benodol
- Cyfleu canlyniadau'r archwiliad i staff a myfyrwyr

Bydd canlyniadau'r gwaith monitro polisi hwn ar gael ar fewnrwyd y Brifysgol a byddant yn cael eu cyflwyno i'r rhanddeiliaid angenrheidiol. Bydd pob cam yn cael eu symud ymlaen

gan y tîm perthnasol hyd nes iddynt gael eu cwblhau. Bydd eithriadau'n cael eu dwysáu i'r partion perthnasol.

Rheoli Fersiynau'r Ddogfen

Cyfeirnod y Ddogfen: Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Polisi Iechyd a Diogelwch

Teitl y ddogfen: Polisi Iechyd a Diogelwch

Fersiwn:	3.0
Dyddiad Adolygu:	Ionawr 2016 (gallai gael ei ddiweddarau cyn y dyddiad hwn mewn ymateb i ofynion statudol neu drefniadol.)
Deddfwriaeth Berthnasol:	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR). Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
Cymeradwywyd gan:	Yr Athro Medwin Hughes – Is-Ganghellor Cyngor y Brifysgol Gwyndaf Tobias – Dirprwy Is-ganghellor Cyllid a Chynllunio Hywell Griffiths – Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Awdur:	Leigh Thomas – Rheolwr Iechyd a Diogelwch
Y Rheswm am y diweddariad diweddaraf	Creu polisi sy'n gryno, gan symud y manylder o'r polisi blaenorol i'r atodiadau.

Atodiad A – Rolau a Chyfrifoldebau

1. Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Penodol

1.1. Y Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio)

Mae gan y Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo gan yr Is-ganghellor i sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod holl staff a myfyrwyr y Brifysgol yn ufuddhau i'r holl deddfwriaeth diogelwch perthnasol a'r holl Godau Ymarfer, Canllawiau a gweithdrefnau diogelwch eraill a gymeradwywyd gan Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

Dyma brif swyddogaethau'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) ym maes iechyd a diogelwch:

- sicrhau bod yr holl reolwyr yn rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol yn adran y Brifysgol sydd o dan eu rheolaeth;
- adrodd i'r Is-Ganghellor ar berfformiad rheolaeth iechyd a diogelwch yn y Brifysgol;
- sicrhau bod yr Is-ganghellor yn ymwybodol o'r holl broblemau diogelwch arwyddocaol neu faterion polisi diogelwch na ellir ymdrin â nhw ar lefel adrannol.

1.2. Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau gyfrifoldeb am sicrhau bod materion iechyd a diogelwch gweithredol ar draws y Brifysgol yn cael eu rheoli'n briodol, y cydymffurfir â deddfwriaeth a chanllawiau ac y caiff Polisi Iechyd a Diogelwch, trefniadau a chanllawiau'r Brifysgol eu diweddarau mewn perthynas â newidiadau deddfwriaethol.

Dyma brif swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch:

- darparu cyfarwyddyd lefel uwch i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch;
- cysylltu â chyrrff cydymffurfiaeth a statudol perthnasol (h.y. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Yswirwyr ac ati) mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch;
- sicrhau y cynhelir amgylchedd gweithio diogel bob amser;
- cynghori'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) am unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a allai effeithio ar y Brifysgol, ei staff neu weithrediadau;
- cynghori'r Dirprwy Is-ganghellor (Cyllid a Chynllunio) am unrhyw ddigwyddiadau a allai effeithio ar y Brifysgol;
- darparu gwasanaeth ymgynghorol i reolwyr a staff y Brifysgol o ran materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch;
- gosod a monitro targedau iechyd a diogelwch perthnasol i'r staff sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau;
- cynghori'r Grŵp Gweithredol Iechyd a Diogelwch a goruchwylio gwaith y tîm Gwasanaethau Technegol ac Eiddo a chontractwyr allanol.

Cynorthwyr y Cyfarwyddwr Gweithrediadau i ddiwallu'r cyfrifoldebau hyn gan y Grwpiau Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch, sy'n cynnwys staff sy'n cynrychioli adrannau allweddol a chanddynt ddiddordeb penodol mewn iechyd a diogelwch a chynrychiolwyr undebau llafur.

Mae ef / hi yn gyfrifol am yr holl safleoedd, gerddi, ffyrdd, meysydd chwaraeon, ystafelloedd gwaith, boelerdai, is-orsafoedd, gwasanaethau adeiladau ac ystadau, adeiladau, gweithdai, swyddfeydd ac eiddo a brydlesir i denantiaid. Y diffiniad cyffredinol rhwng cyfrifoldebau'r adrannau a'r Gwasanaethau Technegol ac Eiddo yw mai:

- Cyfrifoldeb y Penaethiaid Adran priodol yw'r offer a'r cynnwys dan reolaeth yr Adran.
- Cyfrifoldeb y Gwasanaethau Technegol ac Eiddo yw strwythur yr adeilad a'r gwasanaethau sefydlog.

Lle mae peiriannau neu safleoedd dan reolaeth ar y cyd, bydd y cyfrifoldeb am agweddau penodol ar iechyd a diogelwch yn cael eu cytuno ar y cyd trwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

1.3. Y Rheolwr Iechyd a Diogelwch

Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac yn mynd ati i gyflwyno'r cynllun gweithredu tactegol iechyd a diogelwch. Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am osod y prif dargedau ac amcanion iechyd a diogelwch ac ef/hi yw'r prif wneuthurwr penderfyniadau ar faterion iechyd a diogelwch.

1.4. Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch

Mae'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn adrodd i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, maen nhw'n ymgymryd â gweithreidiad iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd, o ran asesu risgiau a monitro materion iechyd a diogelwch cyffredinol.

1.5. Technegydd Iechyd a Diogelwch

Mae'r Brifysgol wedi penodi Technegydd Iechyd a Diogelwch sy'n adrodd i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, ac yn ymgymryd â gweithreidiad iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd.

1.6. Penaethiaid Unedau

Mae'r term Pennaeth Uned yn cynnwys penaethiaid y cyfadrannau academiaidd, penaethiaid yr adrannau gweinyddol, penaethiaid adrannau gwasanaeth, rheolwyr prosiectau a swyddi tebyg. Bydd yr holl unigolion hyn yn cael eu gwneud yn gyfrifol am eu rheolaeth hwy o iechyd a'u diogelwch.

Dylai Penaethiaid unedau arwain wrth gymell y rhaglen iechyd a diogelwch yn eu maes cyfrifoldeb. Rhaid i'r Penaethiaid Unedau ddangos ymrwymiad amlwg trwy:

- Dderbyn eu cyfrifoldeb eu hunain am iechyd a diogelwch ac annog cydweithwyr i wneud yr un fath;
- Hysbysu polisïau a chanllawiau iechyd a diogelwch lleol sy'n seiliedig ar ofnion sefydliadol a'u hasesiad eu hunain o'r risgiau cynhenid yng ngwaith eu hadran. (Trwy'r mecanwaith hwn, bydd y Penaethiaid Unedau'n rhoi gwybod i'w staff am eu dyletswyddau eu hunain, y trefniadau ar gyfer cyflwyno a chynnal mesurau a ddyluniwyd i nodi, monitro a rheoli risgiau, cynnal asesiadau risg a'r broses o gynllunio iechyd a diogelwch yn yr adran);
- Gwneud hyfforddiant iechyd a diogelwch yn elfen angenrheidiol o addysgu adrannol ar bob lefel;

- Darparu'r wybodaeth, y cyfarwyddyd a'r hyfforddiant angenrheidiol i alluogi staff yr adran i gyflawni eu swydd yn ddiogel;
- Sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal;
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu goruchwylio'n briodol;
- Mabwysiadu cyngor iechyd a diogelwch da gan staff iechyd a diogelwch yr adran fel y bo'n briodol;
- Annog ac ymgynghori â chynrychiolwyr diogelwch (hyd yn oed os nad yw'r risgiau'n cyfiawnhau pwyllgor);
- Sefydlu trefniadau iechyd a diogelwch ymgynghorol lleol neu, mewn adrannau risg isel, gosod iechyd a diogelwch yn eitem sefydlog ar agenda pwyllgor rheoli'r adran, os na chyfiawnheir pwyllgor iechyd a diogelwch adrannol;
- Dirprwyo'n ffurfiol tasgau'r (a'r agweddau cadw cofnodion cysylltiedig) swyddi iechyd a diogelwch yr adran i aelodau staff priodol;
- Meithrin llinellau cyfathrebu da yn yr adran;
- Annog a chefnogi presenoldeb aelodau priodol o'r adran i ddigwyddiadau hyfforddiant iechyd a diogelwch mewnol ac allanol perthnasol;
- Gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth dechnegol, y cyngor proffesiynol a'r sgiliau sydd ar gael;
- Clustnodi'r adnoddau angenrheidiol, o ran amser ac arian, i'r staff iechyd a diogelwch a benodir;
- Dyfeisio a gweithredu cynlluniau yn nhrefn blaenoriaeth graddol ar gyfer gwariant cyllid neu ymdrechu i ddatrys problemau na ellir eu datrys ar un adeg benodol;
- Cymryd camau personol – neu rymuso aelodau staff yr adran i weithredu – i ohirio neu stopio unrhyw weithgarwch adrannol sy'n beryglus neu na ellir ei gyflawni o fewn polisi iechyd a diogelwch yr adran;
- Monitro perfformiad iechyd a diogelwch yn weithredol;
- Trefnu bod asesiadau addas a digonol o'r risgiau i iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr a phobl eraill yn eu hadran yn cael eu cynnal a'u hadolygu yn ôl yr angen;
- Sicrhau bod offer diogelu personol ar gael ac yn cael eu defnyddio pan fo'n ofynnol;
- Sicrhau bod archwiliadau cyson o'r gweithle'n cael eu cynnal yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Arolygiadau, Monitro ac Archwilio;
- Yng nghyd-destun system arfarnu'r staff sy'n esblygu, sicrhau bod targedau ac amcanion iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu gosod a'u monitro;
- Tynnu sylw'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch at unrhyw fater iechyd ac / neu ddiogelwch sydd o bryder ac na ellir ymdrin, neu nad yw'n cael ei ymdrin yn effeithiol ag ef gan unrhyw awdurdod arall, neu lle mae angen ragor o wybodaeth yn ei gylch.

Yn ogystal â'r tasgau a amlinellwyd uchod, gallai fod gan Benaethiaid Unedau ddyletswyddau o ddydd-i-ddydd sy'n ymwneud â gofynion deddfwriaethol. Felly, mae'n hollbwysig fod Penaethiaid Unedau'n cael cefnogaeth eu staff, bod digon o adnoddau'n cael eu clustnodi i reolwyr iechyd a diogelwch yr adran a bod hyfforddiant ar reoli iechyd a diogelwch ar gael. Gallai pennaeth adran fawr ac / neu wyddonol benodi staff medrus i gyflawni llawer o'r gweithgareddau rheoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd, dylai'r rheiny cael eu gweld yn siarad gydag awdurdod y Pennaeth Uned a dylent ddilyn cylch gwaith cytûn wrth fynd ar drywydd y polisi a gweithdrefn iechyd a diogelwch lleol.

Lle caiff cyfleusterau a ddefnyddir gan adran eu rhannu gydag adrannau eraill, rhaid i'r Penaethiaid priodol benderfynu sut mae cyfrifoldebau diogelwch yn cael eu dosrannu a ffurfioli'r trefniadau.

1.7. Staff Goruchwyliol

Cyfeiria'r term 'staff goruchwyliol' at yr aelodau staff hynny mewn adran a chanddynt ddyletswyddau goruchwyliol mewn perthynas â staff, myfyrwyr neu unrhyw gyfleuster arall a weithredir gan yr adran. Gallai hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- arweinwyr / cydlynwyr y pwnc neu'r cwrs;
- arweinwyr tîm y swyddfa;
- staff technegol yn goruchwyllo ardal neu offer;
- goruchwylwyr gwasanaethau sy'n rhan o wasanaeth cymorth craidd;
- arweinwyr tîm swyddfa.

Mae pob aelod o staff gyda rôl oruchwyliol yn atebol i'w (h)uwch reolwr, naill ai'n uniongyrchol neu mewn strwythur hierarchaidd trwy reolwyr llinell eraill, am sicrhau cydymffurfiaeth â phob deddfwriaeth, cod ymarfer a chanllawiau a holl godau ymarfer, canllawiau a systemau gweithio diogel y Brifysgol sy'n berthnasol i'w cyfrifoldeb goruchwyliol.

Rhaid i oruchwyliwr sy'n gyfrifol am reoli pobl eraill gyda rôl oruchwyliol, fel rhan o strwythur hierarchaidd, sicrhau hefyd bod y goruchwylwyr is yn gorfodi'r gofynion cydymffurfiaeth a ddisgrifiwyd yn y paragraff uchod.

Mae angen i oruchwylwyr academiaidd neu addysgu hefyd ystyried pa mor dderbyniol y gall safonau ymddygiad diogelwch gael eu cyflwyno yn eu myfyrwyr, yn israddedig ac yn ôl-raddedig, yn y labordy, gweithdy neu faes. Yn achos israddedigion, gallai fod yn dderbyniol cynnwys canllawiau diogelwch mewn nodiadau labordy, ond yn ddi-os bydd angen goruchwyliaeth agos. Gallai myfyrwyr ôl-raddedig hefyd ofyn am ganllawiau a goruchwyliaeth.

1.8. Yr Holl Staff

Bydd yr holl staff yn cynnal eu gweithgareddau a'r gweithgareddau hynny y mae ganddynt reolaeth arnynt, yn ddiogel ac yn hyfedr ac yn unol â Pholisi lechyd a Diogelwch y Brifysgol ac unrhyw Ganllawiau cysylltiedig. Rhaid iddynt gydweithredu â'r Pennaeth Adran a'r Adran Ddiogelwch i sicrhau y defnyddir arferion gweithio diogel bob amser.

Yn benodol, mae pedair agwedd statudol o brif gyfrifoldebau o ran ymddygiad y gweithwyr.

Dan Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974:

- Mae gan bob gweithiwr ddyletswydd statudol i gymryd gofal rhesymol dros ei hun, ar gyfer pob gweithiwr arall ac am unrhyw un arall yn amgylchedd y Brifysgol a allai gael eu heffeithio gan y ffordd y mae'r gweithiwr yn gwneud ei waith.
- Dyletswydd statudol pob gweithiwr yn y gwaith yw cydweithredu gyda'r cyflogwr cyn belled ag y bo angen er mwyn galluogi'r cyflogwr i gyflawni unrhyw ddyletswydd neu

gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodwyd o ganlyniad i unrhyw ddyletswydd statudol a allai fod mewn grym.

Mae Rheoliad 14 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn amodi dyletswyddau'r gweithwyr ychwanegol canlynol:

- Defnyddio unrhyw beiriannau, offer, sylweddau peryglus, offer cludiant, modd o gynhyrchu neu ddyfais diogelwch yn unol ag unrhyw hyfforddiant a chyfarwyddyd a ddarparwyd gan y cyflogwr.
- Rhoi gwybod am unrhyw beth yr ystyrir ei fod yn anniogel yn y gweithle i'w Pennaeth Adran, i Ystadau neu i Gynrychiolydd Iechyd a Diogelwch yr Undeb Llafur.

Aelodau staff academiaidd yw'r bobl fwyaf gwybodus am eu prosiectau ymchwil a'u gweithgareddau gwaith cysylltiedig, yn ogystal ag addysgu yn eu disgyblaeth. Felly, rhaid iddynt nid yn unig sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ond hefyd iechyd a diogelwch unrhyw un a allai gael eu heffeithio gan eu gwaith eu hunain a gwaith cydweithwyr iau a myfyrwyr dan eu goruchwyliaeth. Mae angen i aelodau staff academiaidd ystyried hefyd sut gellir dysgu safonau ymddygiad diogelwch derbyniol i'w myfyrwyr, boed yn israddedig neu'n ôl-raddedig, yn y labordy, gweithdy neu faes. Yn achos israddedigion, gallai fod yn dderbyniol cynnwys canllawiau diogelwch mewn nodiadau labordy, ond yn sicr bydd angen goruchwyliaeth agos. Gallai fod angen arweiniad a goruchwyliaeth ar fyfyrwyr ôl-raddedig hefyd. Mae angen i'r holl staff academiaidd gwblhau gweithdrefnau asesu risg priodol pan fydd risgiau iechyd a diogelwch wedi'u nodi.

1.9. Rheolwyr Prosiectau

Mae rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil yn gofyn am gynllunio a pharatoi cadarn. Rhaid gweld bod hyn yn cynnwys cynllunio a gweithredu mesurau ataliol ac amddiffynnol digonol i sicrhau diogelwch. Fel rheol, mae Rheolwr Prosiect yn aelod o staff gyda chyfrifoldeb am ddefnyddio arian a ddarperir naill ai gan y Brifysgol yn uniongyrchol, gan gorff ariannu ymchwil neu gan fuddiolwr tebyg. Felly, gellir tybio mai Rheolwr Prosiect yw'r un mwyaf gwybodus o ran cynllunio, trefnu a'r gwaith gwirioneddol sydd ynghlwm â phrosiectau ymchwil. Felly, mae Rheolwyr Prosiectau yn gyfrifol o ddydd-i-ddydd am sicrhau bod gofynion polisi'r Brifysgol a'r adran yn cael eu gweithredu mewn perthynas â'u prosiect(au). Dylent dybio cyfrifoldeb hefyd am sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch unrhyw un a allai gael eu heffeithio gan eu gwaith eu hunain, gan gynnwys gwaith cydweithwyr iau a myfyrwyr dan eu goruchwyliaeth.

Mae angen i Reolwyr Prosiectau ddeall gofynion y Brifysgol a pholisïau iechyd a diogelwch yr adrannau. I uwch ymchwilwyr newydd gallai hyn feddu ar oblygiadau adnoddau sylweddol mewn perthynas â'r ddarpariaeth hyfforddiant. Mae gan Reolwyr Prosiectau rôl arwyddocaol wrth weithredu asesiadau risg, o ran ystyried y risgiau sy'n codi o'u prosiect(au) yn gyfan ac o addysgu eu cydweithwyr iau i ddod yn hyfedr yn y prosesau hyn. Rhaid i Reolwyr Prosiectau ystyried sut gallai cynnig effeithio ar iechyd a diogelwch pobl **cyn** gwneud cais am grantiau ymchwil, neu fabwysiadu protocol arbrol.

Mae angen i Reolwyr Prosiectau ystyried hefyd sut gall gellir dysgu safonau ymddygiad diogelwch derbyniol i'w myfyrwyr, boed yn israddedig neu'n ôl-raddedig, yn y labordy, gweithdy neu faes. Yn achos israddedigion, gallai fod yn dderbyniol cynnwys canllawiau

diogelwch mewn nodiadau labordy, ond heb os, bydd angen goruchwyliaeth agos. Gallai fod angen arweiniad a goruchwyliaeth ar fyfyrwyr ôl-raddedig hefyd.

1.10. Person Labordy / Maes Cyfrifol

Mewn achosion lle mae gan Reolwr Prosiect fwy na phedwar myfyriwr ôl-raddedig cysylltiedig, dylai'r Pennaeth Adran benodi 'person labordy / maes cyfrifol' o blith y staff hynny y gellir sicrhau eu presenoldeb yn y labordy neu'r maes. Mwy na thebyg mai aelod o ran academaidd iau neu uwch dechnegol yr adran fydd yr unigolyn hwn. Dylid rhoi awdurdod iddynt ohirio'r gwaith os ydy diogelwch yn debygol o gael ei gyfaddawdu, ond mewn unrhyw achos, dylid eu hannog i gynnig cyngor ar bob mater yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y labordy neu'r maes.

1.11. Cydlynwyr Diogelwch yr Adran

Dylid penodi dyletswyddau penodol i rai aelodau staff yr adran mewn perthynas â materion rheoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn eu hadran, adeilad(au) neu ardal.

Lle bo'n berthnasol, gallai'r Brifysgol benodi staff medrus i sicrhau y defnyddir arferion diogel wrth weithio gyda chemegau, trydan neu lle mae asesiad risg yn nodi angen am hyfforddiant a goruchwyliaeth trafod â llaw.

Y Pennaeth Uned fydd y staff diogelwch adran (neu ardal) cydnabyddedig yn awtomatig os na wneir apwyntiad ffurfiol ar wahân.

1.12. Cynrychiolwyr yr Undeb Llafur

Mae'r rheoliadau a wneir dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn darparu ar gyfer penodi Cynrychiolwyr Diogelwch gan undebau llafur a gynnabyddir gan y Brifysgol at ddibenion cyd-drafod. Mae swyddogaethau'r Cynrychiolwyr Diogelwch yn cynnwys y canlynol:

- ymchwilio i ddamweiniau ac adrodd ar beryglon;
- ymchwilio i gwynion a wnaed gan eu haelodau o ran materion iechyd a diogelwch;
- trafod materion iechyd a diogelwch gyda rheolwyr y Brifysgol fel rhan o'r gweithdrefnau ymgynghori ar y cyd;
- cynnal archwiliadau o'r gweithle (rhaid i Gynrychiolwyr Diogelwch roi rhybudd ysgrifenedig ar gyfer archwiliadau o weithleoedd ac mae gan y cyflogwr hawl i fod yn bresennol);
- cael gwybodaeth gan arolygwyr awdurdodau gorfodi;
- presenoldeb yng nghyfarfodydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a'i Hisbwyllgorau.

Rhaid i'r Pennaethiaid Uned drefnu rhoi cyfleusterau a chymorth priodol i'r Cynrychiolwyr Diogelwch i'w galluogi i ddiwallu eu swyddogaethau. Rhaid i'r Undebau Llafur roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac Adnoddau Dynol am unrhyw newidiadau yn eu cynrychiolaeth diogelwch.